


# Gweithredu Dros Newid

## Zara

**Yn athrawes ysgol gynradd yng Nghaerdydd, dewisodd Zara ddysgu pan ddechreuodd ei phlant ei hun yn yr ysgol. Mae Zara yn rhannu sut y cafodd ei hysbrydoli i newid gyrfa, o weithio fel cynghorydd morgeisi ac yna mam llawn amser, i hyfforddi i addysgu yng Nghymru.**

"Es i i addysgu pan oeddwn i'n 37 oed, roedd gen i ddau o blant erbyn hynny. Pan es i i'w hysgolion i edrych o gwmpas, ni welais unrhyw athrawon Du, Asiaidd nac Ethnig Leiafrifol yno.

Es yn ôl a myfyrio ar hynny, a meddyliais, 'Gallaf wneud y gwahaniaeth hwnnw. Gallaf fod y person hwnnw sy'n dod yn athro.'

Mae wedi bod yn siwrnai a hanner! I ddechrau, es i'n Gynorthwyydd Addysgu, i wneud yn siŵr mai addysgu oedd y penderfyniad cywir i mi. Ar ôl hynny, gwnes gais am fy TAR i ddod yn athro."

**Ers cymhwyso, mae Zara wedi dod o hyd i angerdd gwirioneddol dros addysgu. Mae'n ymfalchïo yng nghornel ddarllen ei hystafell ddosbarth sydd â llyfrau sy'n cynrychioli ystod eang o gefndiroedd a diwylliannau.**

"Mae gennym ni ddisgyblion o lawer o gefndiroedd gwahanol yn ein hysgol. Bob blwyddyn, rwy'n sicrhau fy mod yn cael llyfrau sy'n cynrychioli'r holl blant yn fy nosbarth, fel y gallwn ddysgu gyda'n gilydd am ddiwylliannau ein gilydd."

**Mae Zara eisiau codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael i athrawon yng Nghymru, yn enwedig ynghylch amrywiaeth mewn addysg.**

"Mae Cymru wedi cynhyrchu cynllun gweithredu i ddod yn Gymru Wrth-hiliol erbyn 2030. Rwyf wedi cael cyfleoedd hyfforddi drwy DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth Hiliol), a'r Rhwydwaith BAMEed.

Hefyd, mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn golygu y gall ysgolion gynllunio eu cwricwlwm eu hunain, sydd wedi'i deilwra i anghenion y plant, rhieni, a'r gymuned ehangach. Rydyn ni hefyd yn dysgu am hanes pobl dduon, sydd bellach yn orfodol yng Nghymru."

**Mae Zara yn angerddol dros gael eraill i wneud yr un cam a hi, er mwyn cynrychioli cefndiroedd amrywiol dysgwyr Cymru.**

"Mae'n fraint bod yn athro a dweud y gwir. Mae'n broffesiwn lle gallwch gyfoethogi bywydau'r genhedlaeth nesaf. Os ydych chi'n angerddol am ddod yn athro, gwnewch hynny.

Mae angen i ni gynrychioli'r cymunedau amrywiol yng Nghymru.

Os na wnawn ni'r newid hwnnw, pwy wneith?"